



Cam 6: Hysbysebu a phecynnu

Amcan dysgu

- I hyrwyddo caffi iogwrt
- I ddylunio a gwneud deunydd pacio tecaw

Trosolwg cam

Yn y cam hwn, mae'r plant yn defnyddio eu sgiliau Dylunio a Thechnoleg i ddylunio a gwneud deunydd pacio a hyrwyddo tecawê ar gyfer eu caffis iogwrt. Mae cyfleoedd iaith trawsgwricwlaidd yn cael eu cynnwys pan fydd y plant yn cynllunio ac yn perfformio eu hysbysebion teledu eu hunain.

Deunyddiau sydd eu hangen

- Hysbysebion bwyd o gylchgronau
- Papur a cherdyn lliw
- Pensiliau, creonau/pinnau ffelt

Nodiadau cyflwyniad

Sleid 2: Hyrwyddo	<ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwch i'r plant siarad â'u partneriaid am yr hyn maen nhw'n ddeall am y term 'hysbyseb' ac egluro bod busnesau'n defnyddio hysbysebion i ddweud wrth bobl am eu cynnyrch neu wasanaeth ac annog cwsmeriaid i ddod.
Sleid 3: Archwilio hysbysebu bwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Rhowch ddetholiad o hysbysebion bwyd o gylchgronau i'r plant a gofynnwch iddynt edrych ar yr hyn y mae'r busnesau wedi'i wneud i berswadio cwsmeriaid i brynu eu cynnyrch. Ydyn nhw'n meddwl ei fod wedi gweithio? A fyddent yn hoffi trio'r bwyd? Pam?
Sleid 4: Dylunio deunydd hyrwyddo	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r plant yn cymryd ysbrydoliaeth o'r deunydd hyrwyddo y maent wedi'i archwilio i ddylunio eu hysbyseb ysgrifenedig eu hunain ar gyfer eu caffis iogwrt. • Atgoffwch nhw i ddisgrifio/egluo sut mae eu caffi yn well na'u cystadleuwyr. • Atgoffwch nhw i gynnwys y pris a'r cynigion arbennig e.e. prisiau rhagarweiniol is, prynu un cael un am ddim ac ati.
Sleid 5: Perfformio deunydd hyrwyddo	<ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau i gynllunio a pherfformio hysbyseb deledu neu radio syml ar gyfer eu caffis iogwrt. • Atgoffwch nhw i siarad ar gyflymder a lefel sain clir wrth gyflwyno. • Aseswch iaith lafar yn ystod eu perfformiad.

<p>Sleid 6-11: Pecynnu plastig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddiwch y cyflwyniad i arwain trafodaeth am effeithiau amgylcheddol pecynnu plastig na ellir ei ailgylchu. • Mewn grwpiau busnes, gofynnwch i'r plant ddychmygu bod gan eu caffi wasanaeth prydau parod a thrafod syniadau sut y gallent becynnu eu pwдинаu baner iogwrt heb ddefnyddio plastig (platiau papur, blychau, bagiau papur ac ati).
<p>Sleid 12: Dylunio a gwneud deunydd pacio</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwch i'r plant dynnu llun a labelu braslun o'u pecynnau tecawê. • Yna dylai'r plant wneud ac addurno enghraifft o'u pecynnau tecawê.

Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Maes	Pwnc	Amcan
Dylunio a Thechnoleg	Dylunio	<ul style="list-style-type: none"> • Dylunio cynhyrchion pwrpasol, swyddogaethol, apelgar ar eu cyfer eu hunain a defnyddwyr eraill yn seiliedig ar feini prawf dylunio. • Cynhyrchu, datblygu, modelu a chyfleu eu syniadau trwy siarad, darlunio, templedi a, lle bo hynny'n briodol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.